Y Pwyllgor Busnes
—
Business Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

31 Mai 2023

**Argymhelliad ynghylch gweithdrefn Biliau Aelodau**

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr ar 16 Mai a oedd yn tynnu ein sylw at *Argymhelliad 1* yn eich adroddiad ar y Bil Bwyd (Cymru), sy'n ymwneud ag adolygiad arfaethedig y Pwyllgor Busnes o'r weithdrefn Biliau Aelodau.

Trafododd y Pwyllgor Busnes y llythyr yn ein cyfarfod ar 23 Mai a nodi'r argymhelliad. Yn ddiweddar, trafodom raglen ddiwygiedig ar gyfer ein gwaith gweithrefnol, a chytuno arni, yn ein cyfarfod ar 9 Mai, gan gytuno i drafod ymhellach y weithdrefn Biliau Aelodau cyn toriad yr haf. Yn benodol, yn dilyn gohebiaeth ddiweddar a ddaeth i law gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gwnaethom gytuno y byddem yn ystyried cyngor yn ystod tymor yr haf ar ymarferoldeb ystyried y broses ddethol ar gyfer Biliau Aelodau ar wahân, neu a ddylid gwneud hyn fel rhan o adolygiad llawn. Byddwn yn ystyried argymhelliad eich Pwyllgor wrth ystyried ein dull gweithredu yn ogystal ag yn ystod unrhyw adolygiad llawn dilynol.

Cofion gorau,

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.